# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:**

*Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020*

**Adran:**

*Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:**

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS*

**Dyddiad dechrau:**

*Hydref 2020*

**Cyfeiriad e-bost:**

*StopioCosbiCorfforol@llyw.cymru*

*Cafodd effaith Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ei hystyried yn wreiddiol cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Mae'r asesiad effaith hwn yn ailasesu effeithiau posibl (Hydref 2020) yn dilyn rhoi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Plant Cymru ym mis Mawrth 2020. Mae'r asesiad effaith hwn wedi'i ddiweddaru yn ystyried unrhyw effeithiau posibl yn ystod y cyfnod o weithgarwch gweithredu hyd y daw Adran 1 (dileu amddiffyniad cosb resymol) i rym ym mis Mawrth 2022.*

**Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?**

Ym mis Mawrth 2020, derbyniodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("Deddf Plant Cymru") Gydsyniad Brenhinol. Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022 bydd yn gwahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru drwy ddiddymu amddiffyniad cosb resymol yn gyfreithiol. Nid yw hyn yn creu trosedd newydd.

Nod Deddf Plant Cymru yw helpu i amddiffyn hawliau plant drwy wahardd rhieni a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis yng Nghymru rhag cosbi eu plant yn gorfforol, gan gynnwys y rheini sy'n ymweld â Chymru. Byddai hynny'n golygu bod plant yng Nghymru yn cael eu diogelu'n gyfreithiol rhag cosb gorfforol yn yr un ffordd ag oedolion.

Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar sicrhau bod Deddf Plant Cymru'n cael ei gweithredu mewn ffordd ymarferol a dichonadwy. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Gweithredu Strategol a'r pedair ffrwd waith ganlynol:

- Y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Bydd y grwpiau hyn yn ystyried sut i fonitro effaith y Ddeddf; a oes angen cyflwyno unrhyw brosesau, canllawiau neu hyfforddiant yn sgil diddymu'r amddiffyniad a pha gymorth ychwanegol, os o gwbl, fydd ei angen ar gyfer rhieni, yn cynnwys drwy gynllun dargyfeirio addas.

Mae argyfwng COVID-19 wedi cael effaith uniongyrchol ar waith y Grŵp Gweithredu Strategol a'r pedwar grŵp gorchwyl a gorffen. Cytunodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i oedi'r prosiect gweithredu am 2 fis ym mis Ebrill a mis Mai, gan gydnabod bod rhaid i randdeiliaid allanol rheng flaen roi blaenoriaeth i'r ymateb i argyfwng y Coronafeirws. Roedd hyn yn cynnwys canslo holl gyfarfodydd y grwpiau gorchwyl a gorffen yn cynnwys y Grŵp Gweithredu Strategol. Fe effeithiwyd ar yr ymgyrch gyfathrebu hefyd, gan fod gwaith cyfathrebu Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar negeseuon am COVID-19.

Mae'r cyfnodau clo lleol a ddechreuodd ym mis Medi a'r cyfnod clo cenedlaethol ym mis Hydref wedi achosi pwysau amser a gwrthdaro mewn blaenoriaethau i randdeiliaid a hynny'n ddealladwy. Rydym wedi adolygu cynlluniau gwaith, risgiau a chynlluniau wrth gefn i ystyried yr amserlen ddiwygiedig.

**Ymrwymiad Llywodraeth Cymru**

Mae cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol wedi bod yn ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru ers amser maith.

Yn ei Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*[1], aeth Llywodraeth Cymru ati i ailddatgan ei bwriad i ddatblygu, ar sail drawsbleidiol, ddeddfwriaeth a fyddai'n cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Mae'n amlinellu nifer o fesurau sy'n anelu at wella iechyd a lles pawb, er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cyflawni eu potensial, bodloni eu dyheadau addysgol a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Cymru.

Wrth ddatblygu'r prif ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, mae *Ffyniant i Bawb*[2] yn pennu gweledigaeth ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys dileu amddiffyniad cosb resymol. Mae'r blynyddoedd cynnar yn un o'r pum maes blaenoriaeth sydd â gweledigaeth "i blant o bob cefndir gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd". Mae hynny hefyd yn gyson â'r farn am Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Mae pwysigrwydd sgiliau rhianta da'n cael ei gadarnhau gan y dystiolaeth fod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gallu cael effaith negyddol a hirdymor ar iechyd, addysg a lles plant.

Mae Deddf Plant Cymru yn cefnogi mabwysiadu dulliau cadarnhaol o rianta ac yn cyfrannu at nifer o'r nodau cenedlaethol sy'n ymwneud â lles unigolion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, [3]gan gynnwys:

- Cymru iachach – mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhianta cadarnhaol yn ffactor bwysig o ran sicrhau effeithiau cadarnhaol ar gyfer plant, o ran bod o fudd i'w hiechyd, eu hapusrwydd a'u lles, ac o ran rhoi sylfaen dda iddynt gyflawni eu potensial llawn fel oedolion (Robertson, 2017[4]; O'Connor a Scott, 2007[5]; Katz a Redmond, 2009[6]; Nixon, 2012[7]; Osher et al 2020[8]; Rees, 2007[9]; Shankoff &

[1] https://llyw.cymru/symud-cymru-ymlaen

[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf

[3] https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau

[4]Robertson, L. (2017) "Literature review on outcomes of parental discipline styles, evidence on effective parenting styles and the international experience of prohibition of physical punishment in law". Glasgow: Scottish Centre for Crime and Justice Research

[5]O'Connor, T. a Scott, S. (2007) "Parenting and outcomes for children", Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree

[6] Katz, I a Redmond, G. (2009) "Family income as a protective factor for child outcomes" Social Policy Review 21, Bryste: The Policy Press

[7] Nixon, E. (2012) "Growing Up In Ireland – How Families Matter For Social And Emotional Outcomes Of 9-Year-Old Children", Adran Plant a Materion Ieuenctid, Iwerddon, ISBN 978-1-4064-2646-5

[8] Osher, D. et al (2020) "Drivers of human development: How relationships and context shape learning and development" Applied Developmental Science, 24:1, 6-36

[9] Rees, C. (2007) "Childhood attachment", British Journal of General Practice. 2007 Tach 1; 57(544): 920–922

Garner, 2012[10]).

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – mae cyrff rhyngwladol ar hawliau dynol a chytuniadau fel Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[11], Cyngor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol[12], a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod[13], wedi argymell rhoi terfyn ar bob math o gosb gorfforol, gan ddadlau ei bod yn torri hawliau dynol plant. Mae dileu'r amddiffyniad cosb resymol yn cyd-fynd ag erthygl 19 *("States Parties shall take all appropriate legislative, administrative, social and educational measures to protect the child from all forms of physical or mental violence...while in the care of parent(s), legal guardian(s) or any other person who has the care of the child.")* o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[14].

**Atal cosbi corfforol a'r tymor hir**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers tro bod angen cynnig cymorth i rieni yng Nghymru, yn cynnwys drwy raglenni rhianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Darparwyd y cymorth hwnnw'n bennaf drwy raglenni Dechrau'n Deg[15] a Teuluoedd yn Gyntaf[16] Llywodraeth Cymru, sy'n annog rhieni i fabwysiadu dull cadarnhaol o rianta. Mae rhai o'r rhaglenni hynny, fel Triple P a'r Blynyddoedd Rhyfeddol wedi'u gwerthuso'n annibynnol ac yn helaeth dros y 30 mlynedd ddiwethaf gan grwpiau amrywiol o rieni mewn nifer o wahanol wledydd. Dangoswyd mewn astudiaethau eu bod yn effeithiol wrth sicrhau dulliau rhianta gwell a mwy cadarnhaol, wrth leihau'r straen ar rieni, ac wrth leihau'r gwrthdaro ynghylch dulliau magu plant, yn ogystal â gwella ymddygiad plant.[17]

Ochr yn ochr â Deddf Plant Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar amrediad o bynciau sy'n ymwneud â magu plant, gan gynnwys dulliau cadarnhaol y gellir eu defnyddio yn lle cosb gorfforol, a sut i ddelio â phroblemau rhianta cyffredin, fel dysgu defnyddio'r toiled neu'r poti, rheoli strancio ac ymddygiad amser bwyd.

---

[10] Shonkoff,J.P. & Garner, A.S. (2012) "The lifelong effects of early childhood adversity and toxic stress", Pediatrics, 129 (2012), tt. e232-e246

[11] https://www.ohchr.org/EN/Countries/ENACARegion/Pages/GBIndex.aspx
[12] https://www.ohchr.org/EN/HRBodies/HRC/Pages/Home.aspx
[13] https://www.ohchr.org/en/hrbodies/cedaw/Pages/CEDAWIndex.aspx
[14] https://www.ohchr.org/en/professionalinterest/pages/crc.aspx
[15] https://llyw.cymru/dechraun-deg-canllawiau?_ga=2.132887886.1711033647.1578300148-1415157496.1565776075
[16] https://llyw.cymru/teuluoedd-yn-gyntaf-canllawiau?_ga=2.132887886.1711033647.1578300148-1415157496.1565776075
[17] (Ceir rhestr o erthyglau ymchwil ar wefannau Triple P https://pfsc-evidence.psy.uq.edu.au/ ac Incredible Years http://www.incredibleyears.com/for-researchers/evaluation/). Yn ychwanegol, mae Triple P a'r Blynyddoedd Rhyfeddol wedi'u hadolygu gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (EIF), ac wedi'u cynnwys yn eu harweinlyfr am raglenni ymyrryd yn gynnar sydd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn achos plant. https://guidebook.eif.org.uk/about-the-guidebook (Canfu adolygiad EIF o'r dystiolaeth fod y rhaglenni hynny'n dangos tystiolaeth o effaith gadarnhaol yn y tymor byr mewn o leiaf un gwerthusiad manwl lle gellir cynnig barn am yr achosiaeth.)

Mae Canllawiau Cymorth i Rieni Llywodraeth Cymru[18] yn annog y rheini sy'n darparu cymorth i rieni i addasu'r rhaglenni fel eu bod yn bodloni anghenion ac amgylchiadau penodol rhieni a'r amcanion a nodwyd gan rieni. Dylai cymorth i rieni gael ei ddarparu mewn modd sy'n gwerthfawrogi ac yn defnyddio arbenigedd rhieni, ac sy'n gydnaws â'u credoau a'u gwerthoedd.

Ar draws Cymru, gall rhieni a gofalwyr gael hyd i amrywiaeth o wasanaethau i'w helpu. Caiff y rhain eu cynnig gan bartneriaid yn llywodraeth leol, yn y meysydd iechyd, addysg, ac yn y trydydd sector. Mae'r math o gymorth sydd ar gael yn cynnwys rhaglenni rhianta strwythuredig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer grwpiau; cymorth un-i-un; cymorth anffurfiol strwythuredig i rieni ar gyfer grwpiau; a chymorth anffurfiol galw heibio.

Mae cymorth yn cael ei roi ar adegau gwahanol yn ystod bywyd plentyn (o'r cyfnod cynenedigol hyd at oedran plentyn yn yr arddegau). Mae'r cymorth hwnnw'n amrywio o fod yn gymorth ar gyfer rhieni ag anghenion lefel isel i lefel uchel o gymorth dwys sydd wedi'i dargedu. Gall pob teulu ddefnyddio ystod o wasanaethau cyffredinol a ddarperir gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae darparwyr gofal plant ac ysgolion yn chwarae rôl hanfodol hefyd, o ran nodi'r plant a'r teuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol a chefnogi rhieni er mwyn iddynt allu darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref.

Mae ymgyrch Llywodraeth Cymru *Magu plant. Rhowch amser iddo* [19]yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni plant hyd at 7 oed. Mae'n hybu negeseuon am fagu plant yn gadarnhaol (rhianta cadarnhaol) drwy gyfryngau cymdeithasol ac argraffu a hysbysebu digidol. Mae gwefan benodedig a thudalennau Facebook ac Instagram ar gael sy'n cynnig awgrymiadau i rieni ynghylch materion cyffredin fel strancio, amser mynd i'r gwely, amser bwyta a hyfforddiant poti, maent yn rhoi gwybodaeth a chyngor ac maent yn cyfeirio rhieni at ffynonellau cymorth eraill. Bydd y wefan ac amrywiaeth o adnoddau eraill yn cael eu hehangu i ddarparu gwybodaeth i rieni â phlant 7-18 oed erbyn Haf 2021.

Bydd angen i rieni a'r rheini sy'n gweithredu â chyfrifoldeb rhiant fod yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith cyn iddo ddod i rym ym mis Mawrth 2022. Canfu adroddiad 2018 y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, sef *Legislating to Prohibit Parental Physical Punishment of Children*[20]*,* os nad oedd ymgyrch cyhoeddusrwydd yn cael ei gynnal ar y cyd â'r newid yn y gyfraith, neu os nad yw'r ymgyrch yn parhau am gyfnod digonol, mae ymwybyddiaeth o'r gyfraith newydd yn llai eang.

Darpariaeth arall yn Neddf Plant Cymru yw bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r newid yn y gyfraith cyn y daw i rym ym mis Mawrth 2022. Cafodd yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth ar gyfer Deddf Plant Cymru ei hoedi'n swyddogol tra'r oedd holl waith cyfathrebu Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar yr ymateb i argyfwng Covid-19. Bydd yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth yn ymgyrch aml-gyfrwng wedi'i thargedu a fydd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd penodol yn ogystal ag amrywiaeth o

---

[18] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/ymgysylltu-a-chymorth-wrth-rianta-canllawiau-i-ddarparwyr.pdf
[19] https://giveittime.gov.wales/?skip=1&lang=cy
[20] https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/deddfwriaethu-i-wahardd-rhiant-rhag-cosbi-plant-yn-gorfforol/

waith hysbysebu a Chysylltiadau Cyhoeddus. Bydd yr ymgyrch hon yn hysbysu'r cyhoedd am y newid yn y gyfraith a sut y gallai effeithio arnynt.

**Cydweithio a chynnwys unigolion a grwpiau**

Cyflwynwyd Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i'r Cynulliad ar 25 Mawrth 2019. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu ar Gyfnod 1 y Bil.

Casglodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn cynnwys gan grwpiau lobïo o blaid ac yn erbyn y ddeddfwriaeth; gan Gomisiynydd Plant Cymru; gan weithwyr iechyd proffesiynol; y Trydydd Sector; y sector addysg; yr heddlu; Gwasanaeth Erlyn y Goron; a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS). Cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg alwad am dystiolaeth ysgrifenedig a derbyniwyd 650 o ymatebion ar-lein[21], llawer mwy na'r hyn y maent yn ei dderbyn fel arfer. Yn ogystal, cynhaliwyd dwy sesiwn ymgysylltu â rhieni – un sesiwn lle gwahoddwyd rhieni gan grŵp lobïo yn cefnogi'r ddeddfwriaeth ac un gan grŵp lobïo a oedd yn ei gwrthwynebu.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r tri adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgorau yn dilyn eu gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth ac mae eu hargymhellion wedi'u hystyried o ran sut y diwygiwyd y ddeddfwriaeth a hefyd mewn gweithgarwch gweithredu dilynol.

Nawr bod Deddf Plant Cymru wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio'n ofalus ar gyfer gweithredu'r ddeddf pan ddaw i rym ym mis Mawrth 2022. Dyna pam y byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid allweddol a fydd yn gyfrifol am weithredu'r ddeddfwriaeth; y sefydliadau hynny sy'n gweithio'n agos â theuluoedd a'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys:

- yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y Farnwriaeth a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder;
- iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg;
- grwpiau ffydd;
- sefydliadau'r Trydydd Sector;
- rhieni a grwpiau rhieni;
- plant a phobl ifanc.

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau eglurder ynghylch prosesau'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, a sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i achosion a gofnodir o ymosodiad gan riant ar blentyn. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Gweithredu Strategol a'r pedair ffrwd waith ganlynol:

- Y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro;

[21] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=24674

- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant;
- Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Bydd y grwpiau hyn yn ystyried sut i fonitro effaith y ddeddfwriaeth; a oes angen cyflwyno unrhyw brosesau, canllawiau neu hyfforddiant yn sgil diddymu'r amddiffyniad a pha gymorth ychwanegol, os o gwbl, fydd ei angen ar gyfer rhieni, yn cynnwys drwy gynllun dargyfeirio addas.

**Effeithiau**

Caiff yr effeithiau ar Blant, Cydraddoldeb, y Gymraeg, Cyfiawnder a bioamrywiaeth eu hystyried yn llawn yn yr asesiadau effaith sydd ynghlwm yn Atodiadau A-E.

*Yr Effeithiau ar Blant a Phobl Ifanc*

Mae manylion yr effeithiau ar blant i'w gweld yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) yn Atodiad A y ddogfen hon.

*Yr effeithiau ar rieni*

Mae'r effeithiau ar rieni â nodweddion gwarchodedig wedi'u hystyried yn Atodiad B. Mae'r effaith bosibl ar rieni sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei hystyried yn Atodiad D.

Mae darparu gwybodaeth a chymorth i rieni a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis – o ran codi ymwybyddiaeth o'r newid i'r ddeddfwriaeth a darparu cyngor a chymorth ar ddulliau cadarnhaol eraill yn lle cosbi corfforol - yn rhan o'r cynllun i weithredu'r ddeddfwriaeth.

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyhoeddus i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r newid yn y gyfraith cyn y daw i rym ym mis Mawrth 2022. Fel y nodwyd uchod bydd gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn cael eu cynnal cyn i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym ac wedi hynny. Y nod yw sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith a'r hyn y bydd hynny'n ei olygu iddyn nhw. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grwpiau, cymunedau a sefydliadau penodol i roi gwybod iddynt am y newid yn y gyfraith, ac yn ystyried a allai fod angen cymorth, cyngor a gwybodaeth ychwanegol.

Gallai'r rhieni hynny sy'n parhau i gosbi eu plant yn gorfforol ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno wynebu cyhuddiadau troseddol. Mae'r effeithiau posibl ar rieni ac unigolion wedi'u nodi ym mharagraffau 1-6 o Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y byddai gweithgareddau rhianta arferol o ddydd i ddydd, ac ymyriadau corfforol i ddiogelu'r plentyn neu eraill, yn dal yn gyfreithlon ar ôl dileu amddiffyniad cosb resymol.

*Yr effaith ar gyrff cyhoeddus*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a gwasanaethau cymdeithasol, ac wedi cyfarfod â nhw er mwyn:

- trafod eu prosesau ar gyfer ymdrin â honiadau o gosbi plant yn gorfforol;
- ystyried yr effaith ar eu hadnoddau;
- trafod sut y gallant sicrhau eu bod yn gweithredu'n gyson ar draws Cymru, fel y bydd gan rieni ddisgwyliad rhesymol o sut yr ymdrinnir â honiadau, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Mae'r effeithiau ar gyrff cyhoeddus wedi'u nodi'n fanylach ym Mhennod 8 o'r asesiad effaith rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol, gan gynnwys rhai o'r costau a'r manteision.

Fel y nodwyd uchod, yn ystod y cyfnod gweithredu hwn mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Strategol (a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig) i ystyried materion ehangach fel canllawiau a hyfforddiant a datblygu cynllun dargyfeirio addas.

Yn ogystal, mae Deddf Plant Cymru'n gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu a chyhoeddi adroddiad interim 3 blynedd ac adroddiad llawn 5 mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Fel rhan o'r adolygiad hwn bwriedir cynnal nifer o weithgareddau monitro a gwerthuso. Mae'r rhain yn cynnwys monitro'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus, lefelau ymwybyddiaeth, a newidiadau mewn agweddau. Mae gwaith wedi dechrau, drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro, i ddatblygu dulliau ar gyfer casglu data ar draws sefydliadau i fonitro effeithiau'r ddeddfwriaeth ar wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill.

**Costau ac arbedion**

Mae goblygiadau ariannol Deddf Plant Cymru wedi'u nodi yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddwyd fel rhan o ddogfennau'r Bil wrth ei gyflwyno, ac a ddiwygiwyd yn dilyn cam 2 o'r broses graffu. Mae'r Grŵp Gweithredu Strategol a'r Grŵp Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys hefyd yn ystyried costau ac arbedion sy'n gysylltiedig â sefydlu a chynnal cynllun dargyfeirio addas (lle mae'n briodol dargyfeirio unigolion sy'n cyflawni trosedd oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ffurfiol ar ôl diddymu'r amddiffyniad cosb resymol). Yn ogystal, fel y nodwyd uchod, byddwn yn monitro effaith Deddf Plant Cymru ar wasanaethau cyhoeddus.

**Mecanwaith**

Mae'r gwaith cyffredinol o lywodraethu'r paratoadau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Prosiect sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer gweithredu'r Ddeddf yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Gweithredu Strategol a phedwar grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cwmpasu Cyngor a Chymorth i Rieni; Casglu Data a Monitro; Gweithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant; a'r Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys.

Mae'r grwpiau hyn yn ystyried a oes angen sefydlu unrhyw brosesau, ganllawiau neu hyfforddiant ar ôl diddymu'r amddiffyniad a pha gymorth ychwanegol, os o gwbl, fydd ei angen ar gyfer rhieni.

# CASGLIAD

## 1. Sut mae'r rheini y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Plant, rhieni a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis yw'r bobl y mae Deddf Plant Cymru yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Yn ogystal, bydd Deddf Plant Cymru yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol.

- Cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth

Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei lansio rhwng 9 Ionawr a 2 Ebrill 2018[22], gyda'r bwriad o gael barn y cyhoedd a rhanddeiliaid a fyddai'n sail i ddatblygu'r ddeddfwriaeth ymhellach ac ymdrin ag unrhyw bryderon wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei datblygu. Roedd yr ymgynghoriad wedi'i ddosbarthu'n eang ar ffurf electronig a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac fe gafodd ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd i'w darllen a fersiwn ar gyfer pobl ifanc hefyd.

Cynhaliwyd digwyddiadau allanol i feithrin cysylltiadau â chynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid, y cyhoedd, a grwpiau o rieni a phobl ifanc yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cafwyd 1,892 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, ac roedd 274 o bobl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau allanol i feithrin cysylltiadau. Cafodd dadansoddiad o'r ymatebion ei gyhoeddi ar 6 Awst 2018[23].

Aeth UNICEF ati i holi barn 1,157 o blant a phobl ifanc ledled Cymru ar p'un a ddylai'r gyfraith newid neu barhau fel y mae; roedd 72% o ddisgyblion cynradd a 56% o ddisgyblion uwchradd o'r farn y dylai'r gyfraith newid. Mae ymateb UNICEF i'r safbwyntiau hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol ar yr ymgynghoriad.

- Yn ystod y gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth

Cyflwynwyd Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i'r Cynulliad ar 25 Mawrth 2019. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu ar Gyfnod 1.

Casglodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn cynnwys gan grwpiau lobïo o blaid ac yn erbyn y ddeddfwriaeth; gan Gomisiynydd Plant Cymru; gan weithwyr iechyd proffesiynol; y Trydydd Sector; y sector addysg; yr heddlu; Gwasanaeth Erlyn y Goron; a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS). Cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg alwad am dystiolaeth ysgrifenedig a derbyniwyd 650 o ymatebion ar-lein[24], llawer mwy na'r hyn y maent yn ei dderbyn fel arfer. Yn ogystal, cynhaliwyd dwy sesiwn ymgysylltu â rhieni – un sesiwn lle gwahoddwyd rhieni gan grŵp lobïo yn cefnogi'r ddeddfwriaeth ac un gan grŵp lobïo a oedd yn ei gwrthwynebu.

---

[22] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-consultation-cy.pdf
[23] https://llyw.cymru/cynnig-deddfwriaethol-i-ddileu-amddiffyniad-cosb-resymol

[24] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=24674

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i’r tri adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgorau yn dilyn eu gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth ac mae eu hargymhellion wedi’u hystyried o ran sut y diwygiwyd y ddeddfwriaeth a hefyd mewn gweithgarwch gweithredu dilynol.

- Ar ôl Cydsyniad Brenhinol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â nifer fawr o sefydliadau, gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, a gwasanaethau cyhoeddus eraill i holi am farn, cyngor ac arbenigedd drwy wahanol weithdai, a chyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu drwy’r Grŵp Gweithredu Strategol a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig, fel y nodwyd uchod.

## 2. Beth yw'r effeithiau mwyaf amlwg, cadarnhaol a negyddol?

*Cadarnhaol*

Prif ddiben Deddf Plant Cymru yw helpu i ddiogelu hawliau plant mewn perthynas â'r ddyletswydd sydd wedi'i nodi yn erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd hyn yn golygu bod plant yng Nghymru yn cael eu diogelu'n gyfreithiol rhag cosb gorfforol yn yr un ffordd ag oedolion. Pan ddaw i rym ym mis Mawrth 2022 bydd Deddf Plant Cymru’n gwahardd rhieni a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis yng Nghymru rhag cosbi plant yn gorfforol, gan gynnwys y rheini sy'n ymweld â Chymru.

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A yn ystyried yr effeithiau cadarnhaol bwriedig ar blant a phobl ifanc ynghyd ag effeithiau negyddol posibl a’r mesurau i leihau’r effeithiau hynny. Mae’r effeithiau cadarnhaol bwriedig yn cynnwys sicrhau gostyngiad pellach yn y lefelau o ddefnydd a goddefgarwch tuag at gosbi plant yn gorfforol.

*Negyddol*

Ymhlith yr effeithiau negyddol posibl fydd y posibilrwydd y gallai newid y gyfraith arwain at yr heddlu’n cysylltu â rhiant gydag ystod o ganlyniadau posibl gan gynnwys arestio’r rhiant neu’r rhiant yn derbyn record droseddol os yw rhieni neu’r rhai sy’n gweithredu in loco parentis yn parhau i gosbi eu plant yn gorfforol. Gall arestio, rhybuddio neu euogfarnu rhiant gael effeithiau negyddol ar y plentyn fel y nodir yn y CRIA. Gallai fod goblygiadau i roi gwybod i'r heddlu am achos o gosb gorfforol o ran rhai gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a allai effeithio ar ragolygon cyflogaeth unigolyn. Ystyrir hyn ymhellach yn Atodiad 5 y Memorandwm Esboniadol.

Mae potensial am gynnydd mewn atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol a’r heddlu pan ddaw Deddf Plant Cymru i rym, o leiaf yn y tymor byr. Mae dau grŵp gorchwyl a gorffen yn llifo o’r Grŵp Gweithredu Strategol sy’n ystyried y ffordd orau o fonitro effaith Deddf Plant Cymru ar gyrff cyhoeddus a pha newidiadau i brosesau a allai fod yn ofynnol yn dilyn rhoi’r Ddeddf ar waith ym mis Mawrth 2022. Drwy’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro rydym yn gweithio gyda’r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a’r llysoedd i gytuno ar gasglu data perthnasol am gyfnod cyn gweithredu er mwyn sefydlu llinellau sylfaen.

Bydd casglu data'n parhau yn dilyn gweithredu er mwyn monitro effaith y Ddeddf. Drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ystyried i ba raddau y mae angen diwygio prosesau, hyfforddiant neu ganllawiau cyfredol, a sut i godi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol a fydd yn rhan o weithredu'r newid yn y gyfraith. Gan nad ydym yn creu trosedd newydd rydym yn disgwyl diweddaru'r canllawiau cyfredol, ar draws cyrff cyhoeddus, yn hytrach na'u cynhyrchu o'r newydd.

Nid oes tystiolaeth ryngwladol i awgrymu naill ai y bydd yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu gorlethu pan fydd amddiffyniad cosb resymol yn cael ei ddileu wrth i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym. Mae'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi cadarnhau hyn hefyd yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Cyfarfu Comisiynydd Plant yr Alban gyda'r heddlu, gweithwyr cymdeithasol, a sefydliadau rhianta yn Seland Newydd ym mis Awst 2019. Roeddynt yn credu'n unfrydol bod y newid yn y gyfraith yn rhywbeth cadarnhaol. Mae gweithwyr cymdeithasol yn croesawu'r eglurder a gyflwynir gan y gyfraith, a dywedodd yr heddlu nad yw wedi arwain at fwy o erlyn – yn hytrach roedd wedi darparu eglurder i swyddogion ac wedi galluogi ymyriadau cefnogol. Soniodd y gweithwyr rheng flaen hyn yn Seland Newydd am y newid blaengar yn agweddau'r cyhoedd dros y degawd diwethaf, sy'n cael ei gefnogi gan arolygon y Llywodraeth gyda'r boblogaeth.

Yn ystod y cam gweithredu, cyn i Ddeddf Plant Cymru ddod i rym, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag unigolion allweddol drwy'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta i wella darpariaeth cymorth rhianta cyfredol i rieni. Mae hyn yn cynnwys ehangu ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' fel ei fod yn cwmpasu'r oedran 0-18, yn hytrach na 0-7 oed fel y mae ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae gan rieni yng Nghymru fynediad i linell gymorth sy'n cael ei rhedeg gan Family Lives sy'n darparu cymorth emosiynol, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar rianta a bywyd teuluol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Family Lives i gyflogi derbynnydd galwadau sy'n siarad Cymraeg hyd ddiwedd Mawrth 2021. Mae'r cymorth ychwanegol yn cael ei dreialu am gyfnod cyfyngedig er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd.

Mae Deddf Plant Cymru'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y gyfraith cyn y daw i rym ym mis Mawrth 2022. Fel y nodwyd uchod, bydd ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus yn dechrau cyn gweithredu i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith.

## 3. Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:
- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae Deddf Plant Cymru yn cefnogi mabwysiadu dulliau cadarnhaol o rianta a byddai'n cyfrannu at nifer o'r nodau cenedlaethol sy'n ymwneud â lles unigolion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys: *Cymru iachach* a *Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* fel y mae Rhan 1 o'r ddogfen hon yn ei nodi.

Mae effeithiau'r ddeddfwriaeth arfaethedig a'r mesurau i leihau'r effeithiau hynny wedi'u nodi'n fanwl yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r canlynol yn crynhoi'r mesurau a gymerir i leihau'r effeithiau:

- Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i liniaru rhai o'r effeithiau negyddol drwy wybodaeth, cyngor a chymorth i rieni a chodi ymwybyddiaeth o’r newid deddfwriaethol cyn y daw i rym, sy’n rhan o’r cynllun ar gyfer gweithredu’r ddeddfwriaeth.

- Bydd effaith Deddf Plant Cymru’n cael ei mesur mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys drwy ymchwil a gwerthusiad yn ogystal â datblygu proses gasglu data rheolaidd gyda rhanddeiliaid. I fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth byddwn yn defnyddio arolygon cynrychioliadol i olrhain ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r newid mewn deddfwriaeth, newidiadau mewn agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol ac amlder rhieni’n hysbysu eu bod yn defnyddio cosb gorfforol.

- Sefydlwyd Grŵp Gweithredu a phedwar grŵp gorchwyl a gorffen i sicrhau y bydd unrhyw newidiadau i brosesau a allai fod yn ofynnol yn dilyn gweithredu yn ystyried gweithdrefnau cyfredol.

- Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod pwysigrwydd ystyried goblygiadau ariannol ac adnoddau Deddf Plant Cymru mewn adolygiad ôl-weithredu. Rydym yn gweithio gyda’r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a’r llysoedd i gytuno ar gasglu data perthnasol; ac yn achos yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol, i gytuno ar gasglu data am gyfnod cyn gweithredu er mwyn sefydlu llinellau sylfaen. Bydd casglu data’n parhau yn dilyn gweithredu er mwyn monitro effaith Deddf Plant Cymru. Lle bo’n bosibl, bydd casglu data’n cyd-fynd â gweithgarwch cyfredol neu waith perthnasol arall.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r gwasanaethau cymdeithasol i ystyried yr effaith ar eu hadnoddau a'u prosesau.

- Fel y nodwyd uchod byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ystyried i ba raddau y gallai fod angen diwygio'r prosesau, y canllawiau a/neu'r hyfforddiant cyfredol i weithwyr proffesiynol, a sut i godi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

- Efallai y gwelwn gynnydd yn nifer yr achosion a gaiff eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym, o leiaf yn y tymor byr. Y bwriad yw y bydd yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth yn ysgogiad i newid ymddygiad pobl, fel y bydd cosbi plant yn gorfforol yn mynd yn rhywbeth annerbyniol yng Nghymru, ac y bydd nifer yr achosion a gyfeirir at y gwasanaethau cyhoeddus, felly, yn cael eu lleihau.

- Mae'n bosibl y gellir lleihau'r effaith niweidiol ar blentyn yn sgil dyfarniad bod ei riant wedi troseddu drwy ddefnyddio ymyriadau cynnar neu ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol drwy ein Grŵp

Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys i gyflwyno trefniadau addas i ddargyfeirio unigolion o'r system cyfiawnder troseddol, lle mae hyn er lles gorau'r plentyn.

- Pan ddaw Adran 1 o Ddeddf Plant Cymru i rym ym mis Mawrth 2022 bydd yr amwysedd a'r dryswch o ran pa lefel o gosb gorfforol a ystyrir yn rhesymol yn cael eu datrys. Bydd cael gwared ar yr amddiffyniad yn rhoi sail gliriach, fwy cyson i weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni i fabwysiadu dulliau cadarnhaol o ddisgyblu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol Deddf Plant Cymru, a'r prosesau y gellir eu sefydlu er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol. O ystyried popeth, rydym o'r farn bod ein dull o weithredu Deddf Plant Cymru yn ategu ein nod cyfreithlon o helpu i ddiogelu hawliau plant.

## 4. Sut caiff effaith y cynnig ei fonitro a'i werthuso wrth i'r broses symud yn ei blaen a phan gaiff ei chwblhau?

Mae Deddf Plant Cymru'n gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu a chyhoeddi adroddiad interim 3 blynedd ac adroddiad terfynol 5 mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Fel rhan o'r gweithgarwch gweithredu ar gyfer y Ddeddf, bwriedir cynnal y gweithgareddau monitro a gwerthuso canlynol:

- *Effaith ar wasanaethau cyhoeddus:* Mae'r gwaith wedi dechrau, drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu Data a Monitro, i ddatblygu dulliau ar gyfer casglu data ar draws sefydliadau i fonitro effeithiau'r ddeddfwriaeth ar wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill.
- *Agweddau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd*: Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio arolygon cynrychiolwyr i olrhain ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid mewn deddfwriaeth a newidiadau mewn agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol. Bydd yr arolygon hyn yn ei galluogi i fonitro'r tueddiadau o gymharu ag arolwg sylfaenol 2018. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei wneud yn flynyddol a chynnwys data o amrywiaeth o grwpiau poblogaeth.
- *Safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid*: Bydd hi'n bwysig hefyd deall sut mae'r newid yn y gyfraith yn cael ei brofi gan amrywiaeth o randdeiliaid fel rhieni ac ymarferwyr drwy ymchwil ansoddol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi a llywio gwaith gweithredu yn ogystal â darparu cyd-destun pwysig ar gyfer dehongli'r ffigurau monitro.

Rhagwelir y bydd yr adroddiadau adolygiad ôl-weithredu'n dwyn ynghyd y data a gasglwyd drwy'r tair elfen uchod ac yn ystyried goblygiadau ehangach y newid yn y gyfraith.